

MORRIS, DAVID ('Bardd Einion'; 1797? - 1868), bardd

Enw: David Morris

Ffugenw: Bardd Einion

Dyddiad geni: 1797?

Dyddiad marw: 1868

Rhiant: Margaret Morris

Rhiant: David Morris

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: Enid Pierce Roberts

tybir ei eni yn 1797, yn Nhan-y-bryn, Llanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn, ac efallai mai ef yw'r David, mab David a Margaret Morris, o ardal Heniarth, a fedyddiwyd yn eglwys y plwyf 2 Gorffennaf 1797. Bu'n wehydd am gyfran o'i oes ond yn ddiweddarach trodd at arddio. 'Y Gerddi' oedd hen enw Tan-y-bryn, ac yno y triniai David Morris ei ardd gan werthu'r cynnyrch i'r cymdogion ac yn y marchnadoedd cyfagos. Yr oedd yn hydysg yn hanes Cymru ac yn ei barddoniaeth, a medrai ddarnau maith ar ei gof. Yr oedd yn englynwr pur fedrus ei hun, ac yn eisteddfod Llanfair Caereinion, ddydd Nadolig 1856, ef, allan o dros 40, a enillodd am englyn i'r 'Gwynt.' Dywedir y byddai 'Gwallter Mechain' a Robert Jones ('Bardd Mawddach') yn cywiro ei gyfansoddiadau cynnar iddo. Claddwyd ef ym mynwcent Llanfair Caereinion, 14 Ebrill 1868.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Geninen, 1900, 68

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

cofrestr eglwys plwyf Llanfair Caereinion

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360893

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Roberts, E. P., (1953). MORRIS, DAVID ('Bardd Einion'; 1797? - 1868), bardd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-DAV-1797>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodol i'r
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government